# Adroddiad Arolygu

**Dôl y Felin**

**Cartrefi Dolyfelin**
**Heol y Pentre Sanclêr**
**Caerfyrddin**
**SA33 4LR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Dôl Y Felin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 33 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 31/05/2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Caiff y rheolwr dros dro ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a gan reolwyr cymheiriaid i ddarparu gwasanaeth sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau.
Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn defnyddio'r rhain ac amrywiaeth o adnoddau archwilio ansawdd er mwyn sicrhau bod ganddynt drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda, maent yn wybodus ynghylch y bobl maent yn gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi, caiff hyn ei ategu gan y rhai sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau. Mae'r cofnodion gofal cyffredinol yn cyfleu'r unigolion, fodd bynnag mae angen iddynt sicrhau bod y wybodaeth yn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl bob amser.

Mae'r amgylchedd yn lân; fodd bynnag, nid yw pob ardal sydd wedi eu haddurno dan do yn cefnogi'r bobl i symud o gwmpas yn annibynnol ac nid yw'r ardd gymunedol yn rhoi cyfleoedd i'r bobl ddilyn eu diddordebau a'u hobïau.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn mynd ati i gael eu safbwyntiau am y gwasanaeth drwy ei ymweliadau Rheoliad 73 a thrwy'r holiaduron a ddefnyddiwyd i lywio'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Gall y bobl sgwrsio a chael gwybodaeth yn Gymraeg os mai dyma yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal ar y cyfan yn cynnwys gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl ond rhaid i'r rhain gael eu diweddaru. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Gall y bobl a / neu eu cynrychiolwyr godi pryderon am y gwasanaeth pe baent angen gwneud hynny.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant cryf ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr dros dro a gaiff, yn ei dro, ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a gan reolwyr cymheiriaid. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Nid yw'r bobl yn cyflawni eu canlyniadau llesiant oherwydd yr amgylchedd. Nid yw'r addurniadau y tu mewn yn helpu'r bobl i symud o gwmpas y coridorau neu i'w hystafelloedd gwely yn annibynnol ac mae'r dodrefn wedi'u difrodi mewn rhai ardaloedd. Mae'r gerddi yn gyfyngedig mewn ardaloedd ac nid ydynt yn rhoi'r cyfleoedd i'r bobl ddilyn eu diddordeb a'u hobïau. Nodwyd bod hyn yn faes i'w wella. Trafodwyd y pwyntiau â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol a byddant yn mynd i'r afael â nhw yn yr arolygiad nesaf.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gwybod am hanes yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn darparu manylion am anghenion yr unigolion, yn cynnwys asesiadau risg ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion gofal un unigolyn yn adlewyrchu sut roedd hi'n edrych ar adeg yr arolygiad. Roedd y staff gofal yn gallu dweud wrthym am anghenion cyfredol yr unigolyn hwn a sut roeddent yn darparu gofal. Dywedodd perthynas yr unigolyn wrthym; *"Mum has been poorly off and on. Nothing is too much trouble for the staff or manager, they keep me informed of any changes. I am very happy with the care. I am involved in the decisions about her care".* Er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, rhaid i'r cofnodion gofal gael eu diweddaru a rhaid iddynt adlewyrchu eu hanghenion cyfredol yn gywir.

Dywedodd perthynas arall wrthym; "c*are staff are kind, caring and always keep me informed. I am involved in changes to my mother's care and I am up to date with her current care needs.* Er y dywedwyd wrthym, mae angen cofnodi cyfraniad yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd yn ei gofnodion gofal yn well.

Mae gweithwyr iechyd a meddygol proffesiynol yn rhan o ofal a chymorth y bobl pan fo angen. Caiff hyn ei ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal a thrwy sgyrsiau â gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Dywedodd gweithiwr meddygol proffesiynol wrthym; "*care staff are knowledgeable about the residents. They [care workers] escort and introduce me to the residents. They [care workers] are very caring in their approach and follow medical instructions well".*

Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am fyw yn y gwasanaeth ac am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Yn ystod sgyrsiau gyda nifer o bobl mewn lolfa gymunedol, gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal maent yn ei gael ac mae'r staff yn *"kind", "very good",* ac yn *"lovely"*. Roedd y staff gofal yn rhyngweithio'n garedig iawn â'r bobl, yn ystod sawl arsylwad yn ystod yr arolygiad. Mae nifer o'r staff yn cyfathrebu â'r bobl yn Gymraeg, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn ystod yr arolygiad. Gall y bobl ddewis pryd i godi a phryd i fynd i'w hystafelloedd gwely. Mae amrywiaeth o opsiynau bwyd a gwybodaeth ddwyieithog ar gael yn hwylus bob amser.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod trafodaethau dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yng nghartef Dôl y Felin ac y gallant godi pryderon os oes angen arnynt. Dywedwyd wrthym; "*I would speak to one of the carers or the manager"* ac *"I know I can speak to a member of staff if anything is wrong".* Cadarnhaodd y perthnasau hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus y gallant godi unrhyw bryderon. Dywedodd un perthynas wrthym *"whilst I have no complaints at all, if I did, I would report any complaints to staff. I have a copy of Carmarthenshire County Council's Complaints procedure".*

## Yr Amgylchedd

Caiff y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau gan fod amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd. Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon. Caiff yr holl sylweddau peryglus i iechyd (CoSHH) eu storio'n ddiogel. Defnyddir systemau mynd i fewn i fysellbad pan fo'u hangen ac mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Mae cyfyngwyr wedi'u gosod ar bob ffenestr ar y llawr cyntaf. Mae larymau argyfwng yn hygyrch i'r bobl eu defnyddio ac ymatebir iddynt yn amserol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oed unrhyw arogleuon drwg.

Nid yw canlyniadau personol y bobl yn cael eu cefnogi'n briodol. Nid yw'r arwyddion ar ddrysau'r ystafelloedd gwely yn nodi ystafell yr unigolyn ei hun yn glir. Nid oes gan ycoridorau cymunedol luniau, arddangosiadau na phwyntiau o ddiddordeb i helpu'r bobl i gyfeirio eu hystafelloedd gwely ac wrth wneud hynny byddent yn eu cefnogi i gadw eu hannibyniaeth.

Nid yw'r gerddi cymunedol ar eu gorau gyda gwelyau plannu uchel gwag a glaswellt sydd angen eu torri ac mae'r llwybrau angen eu chwynnu. Mae'r chwyn ar y llwybrau yn berygl llithro neu faglu. Mae tŷ gwydr ochr yn ochr â'r maes parcio cymunedol ac felly nid yw'n hwylus i'r bobl ei defnyddio. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym bod rhai unigolion yn hoffi garddio a chafodd hyn ei ategu gan ddau berson sy'n byw yn y gwasanaeth. Nid yw hyn yn rhoi'r cyfle i'r bobl ddilyn eu diddordebau a'u hobïau.

Hefyd gwelsom ychydig o bapur wal wedi'i ddifrodi mewn rhai ardaloedd ac roedd uned ymolchi mewn cyflwr gwael.

Nodwyd y rhain yn Faes i'w Gwella. Trafodwyd y pwyntiau â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol a byddant yn mynd i'r afael â nhw yn yr arolygiad nesaf.

Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely eu hunain gydag eitemau a dodrefn o'u dewis a gallant gymdeithasu mewn sawl lolfa gymunedol ac ystafelloedd sydd ar gael iddynt hwy a'u hymwelwyr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff gwybodus, sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n dda. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a gallant ddarparu manylion am yr unigolion yn eu gofal a'u anghenion gofal penodol. Mae'r gweithwyr gofal yn mynychu amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddiant gorfodol ac arbenigol. Dywedwyd wrthym; *"I have attended a lot of training, I feel I have had enough training to do my job well"* and *"the council provides us with a lot of training, which I think is really good".* Mae'r cofnodion gofal yn cadarnhau'r hyfforddiant mae'r aelodau o'r staff yn ei fynychu.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr cymheiriaid wedi cefnogi'r dirprwy reolwr yn dda wrth weithio fel rheolwr dros dro. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGC ar y newidiadau dros dro hyn a'r cymorth rheoli a ddarperir. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad yn gadarnhaol am y rheolwr dros dro a gwnaethant ddweud wrthym *"[acting manager] is great, her door is always open and she is very open to ideas and suggestions"* and *"[acting manager] always calls into the unit and says good morning and thanks us; it means a great deal".* Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a chaiff ei ddogfennu, cadarnhawyd hyn pan gwnaethom ddarllen y cofnodion goruchwylio. Mae'r staff hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a gwnaethant ddweud wrthym; *"I really enjoy working here, it's a great team"* and "*we all enjoy working here".*

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu trylwyr ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ei ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau recriwtio a dethol cryf ar waith. Caiff y cliriadau a'r gwiriadau cywir eu cyflawni a'u dogfennu cyn i'r aelodau o'r staff ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r gwasanaeth wedi cael anawsterau wrth recriwtio staff. Caiff amrywiaeth o ddigwyddiadau recriwtio a chyhoeddusrwydd eu cynnal gan y darparwr. Dylid nodi nad yw'r anhawster hwn wedi effeithio ar ansawdd y gofal a ddarperir.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir a rhoddir gwybod yn briodol i AGC am ddigwyddiadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid yw'r amgylchedd mewnol yn cefnogi'r bobl i symud o amgylch y gwasanaeth. Mae risg bosibl yn yr ardal allanol ac nid ydyw'n cefnogi'r bobl i ddilyn eu hobïau a'u diddordebau. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2023